BBC Bitesize

# CA3 Cymraeg – Erthygl papur newydd

## Gweithgaredd 1

Mae enghreifftiau o'r nodweddion yma wedi eu hamlygu:

- pennawd bachog
- pwy, beth, ble, pam, sut, pryd
- dyfyniad gan lygad-dyst/arbenigwr
- ffurfiau berfol yn yr amser presennol
- cysyllteiriau

**Pennawd bachog**

### Cadwch draw!

**Beth?** **Pwy?** **Ble?** **Sut?** **Pam?**

Mae'r **cyhoedd** yn cael eu hannog **i gadw draw o afonydd a llynnoedd Cymru.** Er gwaetha'r tywydd braf, rhaid cymryd gofal, yn ôl penaethiaid Gwasanaeth Tân ac Achub **holl ranbarthau Cymru.** **Mae cynghorau tref a sir wedi gwneud yr un apêl.** **Mae Cymru dal mewn cyfnod o glo oherwydd y coronafeirws, sy'n golygu bod llai o wylwyr y glannau yn gweithio i gadw golwg ar arfordir Cymru. O ganlyniad, mae mentro i'r dŵr yn golygu eich bod yn mentro eich bywyd.**

**Disgrifiad llygad-dyst**

Yn ôl Mair Huws sy'n byw tafliad carreg o Lyn Padarn, mae pobl yn aml yn mynd i drafferthion yn y dŵr. "Er ei bod hi'n gynnes braf ar hyn o bryd, mae dŵr llynnoedd yn oer tu hwnt. Mae'r llyn tua 35 gradd Fahrenheit, felly allwch chi ddim aros yn y dŵr am fwy na thua chwarter awr. Yn anfoddus, mae pobl leol fel fi yn gweld pobl yn mynd i drafferthion dro ar ôl tro a gyda neb yn gwarchod y llyn ar hyn o bryd, rydan ni'n poeni'n arw y bydd rhywun yn mynd i drafferth ac yn boddi a neb wrth law i'w achub".

**Disgrifiad gan arbenigwr**

Ategodd Dr John Williams mai'r prif berygl i bobl sy'n gallu nofio yw bod eu cyrff yn mynd i sioc dŵr am fod y tymheredd mor oer, a bod hynny'n arwain at lyncu dŵr a boddi.

**Amser presennol**

**Mae'r** apêl yma'n dilyn marwolaeth dyn aeth i drafferthion yn un o lynnoedd Eryri dros y penwythnos. Cafodd ei dynnu o'r dŵr a'i gludo i Ysbyty Gwynedd ym Mangor gan yr Ambiwlans Awyr. **Er gwaethaf** ymdrechion meddygon yno, bu farw'n ddiweddarach.

**Cysylltair**


© BBC